DATGANIAD I'R WASG
Dydd Sadwrn 5 Mehefin 2010

LLWYDDIANT EISTEDDFOD Y CARDIS

Gyda bynting a baneri yn addurno pob tref a phentref am filltiroedd o amgylch y Maes, mae Eisteddfod Ceredigion wedi cael croeso heb ei ail yma yng Ngheredigion. Ac mae'r Urdd yn hapus iawn i gyhoeddi bod yr Eisteddfod wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Heidiodd dros 100,000 o ymwelwyr i un o'r meysydd godidocaf a gafodd yr Eisteddfod erioed. Ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron, cai'r Eisteddfodwyr ymweld a'r gerddi hamddenol, y ty a'r cwrt gwasanaethau, i gyd yn rhan o'r stad sy'n dyddio o'r 17fed ganrif, fel rhan o'u hymweliad. Meddai Gwynn-Angell Jones o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

"Mae ymateb y cyhoedd i'r hyn mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei gynnig yma yn Llanerchaeron wedi bod to hwnt i bob disgwyl. Amcangyfrifwn bydd y nifer o ymwelwyr y ty dros y chwe diwrnod diwethaf tua 20% o'r niferoedd arferol mewn blwyddyn gron. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r Urdd am eu cydweithrediad ardderchog, mae hi wedi bod yn bleser gweithio mewn partneriaeth gyda mudiad mor broffesiynol."

Ar Faes yr Eisteddfod ei hun roedd digon o weithgareddau i gadw teuluoedd yn hapus. Yn adlewyrchu'r oll mae'r Urdd yn ei gynnig, roedd Pentref Mistar Urdd unwaith eto yn fwrlwm drwy'r wythnos. Croesawyd bob math o atyniadau newydd fel GwyddonLe, y Cwtsh Cymraeg a Thrên Bach y Maes.

A hithau'n wythnos heulog, hafaidd, roedd y stondinwyr yn adrodd am wythnos tu hwnt o brysur. Roedd darpariaeth newydd arall ar y Maes, Y Bwyty, yn llawn gydol yr wythnos.

MeddaiT udur Dylan Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod:

"Mae hi wedi bod yn wythnos anhygoel yn Llanerchaeron. Ma'r tywydd wedi bod o'n plaid ni, ond yn bwysicach na hynny, mae' croeso'r ardal wedi bod yn ddiguro. Mae safon y cystadlu wedi bod gyfuwch ag erioed, ac mae gallu'r bobl ifanc ar y llwyfan ac yn y testunau gwaith cartref yn destun rhyfeddod o flwyddyn i flwyddyn. Braf iawn oedd cal teilyngdod a safon arbennig ymhob un o'r prif seremonïau yn ystod yr wythnos.

Diolch i holl staff yr Urdd a'r gwirfoddolwyr am yr holl waith caled i sicrhau Eisteddfod i'w chofio am flynyddoedd i ddod."

Gyda theilyngdod ym mhob un o'r prif seremonïau roedd Ceredigion yn hawlio dau o'r prif enillwyr - Jack Pulman-Slater o Gastell Newydd Ifan Emlyn yn ennill medal y Dysgwyr ar

ddydd Mawrth a Catrin Haf Jones yn ennill y Goron ar ddydd Gwener i roi coron ar yr ŵyl, yn llythrennol.

Meddai Deian Creunant, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol:

“Rwy wrth fy modd fod Eisteddfod yr Urdd Ceredigion wedi bod mor llwyddiannus. Mae cymaint o wirfoddolwyr lleol o bob rhan o’r sir wedi gweithio’n ddiflino ers tair mlynedd a mwy i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn rhwydd, ac mae’r gwaith caled wedi bod yn werth bob eiliad. Roedd y cyfleoedd gwych i blant a ieuenctid y fro gymryd rhan yn y cyngherddau a’r sioeau gwych, y seremonïau, y gwasanaeth ddydd Sul ac ar y Maes. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i sicrhau bod hon yn wythnos fythgofiadwy.”

Bydd Cymanfa Ganu’r Eisteddfod yn cael ei chynnal ddydd Sul 6 Mehefin am 5:00yh yng Nghapel Tabernacl yn Aberaeron, gyda Delyth Hopkins Evans yn arwain a Rhiannon Lewis yn cyfeilio ar yr organ. Mynediad drwy raglen sydd ar gael ar faes yr Eisteddfod, am £6.

Meddai Aled Siôn, cyfarwyddwr yr Eisteddfod:

“Rydyn ni wedi cael wythnos rhagorol yma yn Llanerchaeron, a hoffai’r Urdd ddiolch i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am fod gystal gwestywr. Rydyn ni’n ddyledus i Deian Creunant a’i dim lleol, ac yn diolch i’r holl wirfoddolwyr am eu cefnogaeth a’u dyfalbarhad. Mae’r Urdd yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ceredigion am eu cydweithrediad, sydd wedi cyfrannu at lwyddiant yr wythnos. Yn dilyn wythnos ardderchog yma yn Llanerchaeron rydan ni’n edrych mlaen nawr i ddathlu talent ieuenctid Cymru unwaith yn rhagor yn Abertawe fis Mai nesaf.”

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae’r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae’r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda’r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Saturday 5 June 2010

EISTEDDFOD SUCCSSESS

With bunting and banners adorning every town and village for miles around, there was no mistaking Ceredigion's welcome to the 2010 Urdd Eisteddfod. And Urdd officials are delighted to announce that the Eisteddfod was a phenomenal success.

Over 100,000 visitors flocked to one of the most scenic sites the Eisteddfod has ever enjoyed. On National Trust ground at Llanerchaeron, Eisteddfod goers could enjoy the tranquil gardens, house and service courtyard of the 18th century estate as part of their visit. Gwynn-Angell Jones from the National Trust says:

"The response of the public to what the National Trust offers at Llanerchaeron has exceeded all expectation. We estimate that the number of visitors to the house in the last six days will equal about 20% of our usual total for the whole year. We are very grateful to the Urdd for their wonderful co-operation and it has been a pleasure working in partnership with such a professional organisation."

On the Eisteddfod Maes itself there were more than enough attractions to keep families happy, and Pentre Mistar Urdd once again proved a roaring success, showcasing all that the Urdd has to offer. New attractions such as GwyddonLe and Cwtsh Cymraeg and Tren Bach y Maes were warmly welcomed and enjoyed very high attendance.

The crowds flocked to Ceredigion to enjoy the sunshine, and stallholders reported a busier week than usual.Another new provision on the Maes, Y Bwyty, offering local produce in a restaurant atmosphere, was full all week.

Says Tudur Dylan Jones, Chair of the Eisteddfod Board:

"It's been a fantastic week at Llanerchaeron. We've had warm weather, and more importantly we've had a fantastically warm welcome in Ceredigion. The standard of competing has been as high as ever. The high standards achieved by young people both on stage and in the homework competitions continue to astound me.

My thanks goes to all the staff and volunteers of the Urdd for the hard work that ensured we had an Eisteddfod to remember for years to come."

With winners in each of the main ceremonies, the host county Ceredigion could claim two local winners – Jack Pulman-Slater from Newcastle Emlyn winning the Learner's Medal on Tuesday and Catrin Haf Jones winning the Crown on Friday to finish the festival off in style.

Deian Creunant, Chair of the Local Executive Committee says:

"I'm delighted that the Urdd Eisteddfod at Ceredigion was such a fabulous success. So many local volunteers across the county have worked tirelessly for three years and more to ensure that everything ran smoothly, and all their hard work has payed off. The opportunities offered by the Eisteddfod for local children and young people, to take part in the spectacular shows and concerts, the ceremonies, the Sunday service and on the Maes were fantastic. I would like to thank everybody that contributed in each and every way to making this an unforgettable week."

The last event of the Eisteddfod is the Cymanfa Ganu held Sunday, 6 June at 5:00pm, at Tabernacl Chapel in Aberaeron, Delyth Hopkins Evans will conduct the gymanfa with Rhiannon Lewis accompanying on the organ. Entry to the event will be by programme, costing £6, available on the Urdd National Eisteddfod site during the week itself.

Aled Sion, Urdd Eisteddfod Director says:

"We have had a brilliant Eisteddfod here in Llanerchaeron, and the Urdd would wish to thank the National Trust for being such fabulous hosts. I am indebted to Deian Creunant and his local team, and thank all the volunteers for their dedication and support. The Urdd is very grateful to Ceredigion County Council for their co-operation, which contributed to the week's success. Following a fabulous week here at Llanerchaeron we now look forward to yet again celebrating Wales' young talent at Swansea next May."

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.